



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyllideb Derfynol 2011-2012



Chwefror 2011

ISBN 978 0 7504 5941 9
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2011
WAG10-11130
F6161011

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Craffu ar y Gyllideb	1
Goblygiadau Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cwtogi gan Lywodraeth y DU ar Gyllideb 2010-11	2
Dyraniadau nad ydynt yn arian parod	4
Yr Her o Gyflenwi	5
Cefnogaeth i Gyflenwi	6
2. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	13
3. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	16
4. Yr Economi a Thrafnidiaeth	18
5. Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	20
6. Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	23
7. Materion Gwledig	25
8. Treftadaeth	27
9. Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	29
10. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	31
Atodiad 1 – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniadau Adnoddau yn y Cynnig Blynyddol am y Gyllideb...	33
Atodiad 2 – Rhestr Eirfa	37

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â:
Budget_and_Strategic_Planning@Wales.gsi.gov.uk

1. Cyflwyniad

- 1.1** Heddiw, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2011-12, yn unol â Rheol Sefydlog Dros Dro 27A. Mae'r Gyllideb Derfynol yn cyfateb yn agos â'r Gyllideb Ddrafft, a gyflwynwyd ar 17 Tachwedd 2010.

Craffu ar y Gyllideb

- 1.2** Ers i'r Gyllideb Ddrafft gael ei osod ar 17 Tachwedd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi craffu'n fanwl ar ein cynigion. Mae'r broses graffu hon wedi bod yn bwysig i ddatblygu a phrofi ein cynigion, er mwyn sicrhau bod y Gyllideb Derfynol a gyflwynir heddiw yn cyflawni dros bobl Cymru mewn hinsawdd ariannol hynod o anodd a heriol.
- 1.3** Yn ystod y broses graffu, gwahoddodd y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau Pwnc y Cynulliad dystiolaeth gan amryw o randdeiliaid allweddol. Hefyd, bu'r pwyllgorau hyn yn gohebu'n uniongyrchol â phob un o'r Gweinidogion ar eu cynlluniau gwariant manwl. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor Cyllid gyfle i glywed tystiolaeth gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys.
- 1.4** Penllanw'r broses graffu hon oedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid, a oedd yn cynnig ymateb adeiladol a phwylllog i'r Gyllideb Ddrafft. Rydym wedi ystyried manylion adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn ofalus, ochr yn ochr â thystiolaeth a sylwadau pwysig eraill a ddaeth i law drwy broses y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a wnaed yn ystod y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft. Bydd ymateb ffurfiol i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn cael ei gyhoeddi maes o law.
- 1.5** Mae'n amlwg o'r broses hon fod ein rhanddeiliaid allweddol wedi croesawu dull gweithredu Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyfan. Mae'r gymeradwyaeth hon i'n cynigion wedi golygu na wnaed unrhyw

newidiadau o sylwedd i'n cynlluniau gwariant rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.

- 1.6** Aethom ati mewn dull unigryw Gymreig i ddatblygu ein Cyllideb. Gweithiwyd gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddatblygu ymateb cydweithredol i'r her o fyw o fewn cyllidebau sy'n crebachu ac o gyflenwi gwasanaethau â llai o adnoddau. Mae'r gwaith cynnar hwn gyda'n rhanddeiliaid allweddol wedi rhoi sylfaen gadarn inni, ac mae ein cynigion wedi'u gosod yng nghyd-destun anghenion clir dinasyddion Cymru - gwarchod iechyd, ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, sgiliau a'r manteision i bawb, yn ogystal â chefnogi'r adferiad economaidd.
- 1.7** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fod wedi'i hymrwymo i weithredu yn agored a thryloyw, ac wrth baratoi'r Gyllideb Derfynol rydym wedi nodi'r newidiadau o sylwedd rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol. Mae'r mathau o newidiadau rydym wedi'u nodi yn cynnwys ailddyraniadau o un MEG i'r llall er mwyn adlewyrchu ein blaenoriaethau; ailddyraniadau o fewn MEGiau er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau'n well; addasiadau i ddyraniadau nad ydynt yn arian parod er mwyn adlewyrchu'r pwysau a ragwelir; ac addasiadau i adlewyrchu effaith penderfyniadau a wnaed eleni ar gyllidebau'r blynyddoedd a ddaw. Cewch fwy o fanylion am y newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn y Penodau ar yr Adrannau yn y ddogfen hon.
- 1.8** Roedd ein Cyllideb Ddrafft yn ymateb penderfynol, cadarn a chyfrifol i her y setliad anodd, a cheisiwyd sicrhau cyn lleied â phosibl o newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.

Goblygiadau Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cwtogi gan Lywodraeth y DU ar Gyllideb 2010-11

- 1.9** Yn ei Chyllideb ym mis Mehefin, cwtogodd Llywodraeth y DU symiau net o £113.5 miliwn refeniw a £49 miliwn cyfalaf ar gyllideb Cymru. Cynigiodd Llywodraeth y DU ddwy opsiwn inni, sef derbyn y toriadau'n

llawn yn 2010-11, neu eu trosglwyddo i 2011-12. Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi y byddem yn dod o hyd i'r holl ostyngiad cyfalaf a osododd Llywodraeth y DU arnom, yn 2010-11, gan ddefnyddio stociau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF). Byddai hyn yn golygu y gallem ysgwyddo'r gostyngiad hwn heb effaith ar ein rhaglenni cyfalaf arfaethedig. Ar yr un pryd, eglurais y byddem yn dod o hyd i gymaint o'r gostyngiad refeniw ag y gallem eleni heb osod pwysau niweidiol ar wasanaethau.

1.10 Yn sgil rheolaeth ariannol ofalus, rydym wedi gallu dod o hyd i'r gostyngiad llawn o £113.5 miliwn refeniw eleni, heb effeithio ar wasanaethau. Drwy ddod o hyd i'r holl ostyngiad refeniw eleni, bydd gennym £56.77 miliwn yn ychwanegol yn 2011-12 o'i gymharu â'r sefyllfa a dybiwyd yn y Gyllideb Ddrafft¹. Mae hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd inni at y dyfodol, a'r cyfle i liniaru'n rhannol ar y gostyngiad mawr iawn yn ein cyllideb cyfalaf yn 2011-12.

1.11 Ers cyhoeddi'r Adolygiad o Wariant, rydym wedi gwybod mai'r setliad cyfalaf yw un o'r heriau anoddaf yn rownd yr adolygiad hwn. Rydym yn hynod ymwybodol o effaith drychinebus bosibl y gostyngiadau cyfalaf rydym yn eu hwynebu, o ran cyflenwi gwasanaethau ac o ran twf economaidd. Mae hon yn neges a bwysleisiwyd gydol y broses graffu a chan ein rhanddeiliaid. I gydnabod hynny rydym wedi penderfynu defnyddio'r £56.77 miliwn a ryddhawyd yn sgil ein rheolaeth ariannol ofalus eleni er mwyn lleihau effaith y gostyngiad yn y gyllideb cyfalaf yn 2011-12. Bydd y swm hwn yn cael ei gadw mewn Cronfeydd Wrth Gefn i gychwyn, a chaiff ei ddyrannu yn ystod y flwyddyn.

¹ Adeg llunio'r Gyllideb Ddrafft, gwnaethom ragdybiaeth ddarbodus mai dim ond 50% o'r gostyngiad refeniw y byddem yn dod o hyd iddo yn 2010-11.

Dyraniadau nad ydynt yn arian parod

1.12 Mae'r cyllidebau nad ydynt yn arian parod² wedi newid yn sylweddol ers prosiect Llwybr Clir (*Clear Line of Sight*) Llywodraeth y DU. Arweiniodd y prosiect hwnnw at adolygu ein cyllidebau nad ydynt yn arian parod, a thynnwyd cost taliadau cyfalaf allan ohonynt yn gyfan gwbl. Yn yr Adolygiad o Wariant, cyhoeddwyd rhagor o adnoddau nad ydynt yn arian parod dros gyfnod yr adolygiad hwnnw. Yn y Gyllideb Ddrafft, cadwyd y cyllidebau nad ydynt yn arian parod ar lefelau 2010-11, wrth aros canlyniad adolygiad o'n cyllidebau nad ydynt yn arian parod a'r rhagolwg gwariant dros y dair blynedd nesaf. Fe wnaethom gynnal yr adolygiad hwn ym mis Ionawr.

1.13 Mae ein hadnoddau nad ydynt yn arian parod o dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen, yn sgil diddymu'r system bresennol o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn (EYF), cael gwared ar y stociau EYF, a rhoi prosiect Llwybr Clir Llywodraeth y DU ar waith. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ddsbarthiad hanesyddol adnoddau nad ydynt yn arian parod, patrwm presennol yr anghenion a'r rhagolygon o ran risgiau a phwysau ar adnoddau nad ydynt yn arian parod.

1.14 Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith bod nifer o feysydd lle roedd angen addasu'r gyllideb, er mewn rhai achosion ei bod yn briodol cadw cyllidebau nad ydynt yn arian parod y blynyddoedd nesaf ar lefelau 2010-11. Nododd yr Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bwysau penodol yn ymwneud â chostau cymorthdaliadau a chostau dileu benthyciadau myfyrwyr yn sgil y cynnydd diweddar yn niferoedd myfyrwyr. Nododd sawl Adran wahanol fathau o bwysau mewn cysylltiad â dibrisiant yn y dyfodol. Rydym wedi ymateb i'r pwysau hyn drwy

² Costau sy'n daladwy ac a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio adnoddau nad ydynt yn arian parod i ariannu gwariant sydd bron yn arian parod.

addasu'r dyraniadau nad ydynt yn arian parod. Mae'r addasiadau hyn wedi'u nodi yn y Penodau ar yr Adrannau, a dangosir hwy yn nhabl 1.3.

Yr Her o Gyflenwi

- 1.15** Dim ond dechrau'r daith yw pennu'r Gyllideb, ac ar sawl ystyr, yn awr y mae'r her go iawn yn cychwyn. Rydym wedi cydweithio'n agos ag amrywiaeth eang o bartneriaid dros y flwyddyn ddiwethaf yn paratoi ein cynigion. Bellach, rhaid i'n ffocws droi at gyflawni'r cynigion hyn, gan lynu at yr egwyddorion sydd wedi llywio ein gwaith hyd yma. Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo ein partneriaid i weithio a chynllunio er mwyn byw o fewn cyllidebau llai. Fel Llywodraeth gyfrifol, mae gennym rôl bwysig yn arwain ac yn galluogi a byddwn yn parhau i gynorthwyo ein partneriaid sy'n cyflawni drosom, yn ogystal â sefyll yn gadarn dros fuddiannau pobl Cymru.
- 1.16** Rydym yn ymateb i'r hinsawdd ariannol sydd ohoni ag agenda o effeithlonrwydd ac arloesi. Roedd y Gyllideb Ddrafft yn esbonio sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a thu hwnt i ddatblygu ymateb unigryw Gymreig i warchod a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r diwygiadau i wasanaethau cyhoeddus a'r adolygiadau sydd ar waith ym meysydd iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, adfywio'r economi, a gwasanaethau llywodraeth leol yn fwy eang, wedi'u hategu gan gyfres o Uwchgynadleddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r rhain wedi helpu i feithrin ewyllys ymysg uwch arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau.
- 1.17** Mae'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi yn parhau i gefnogi'r adolygiadau a'r diwygiadau hyn, drwy ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Bydd mwy o wybodaeth am y gwaith o ddatblygu'r fframwaith

fesur ar gyfer dangos cynnydd yr agenda hon yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

Cefnogaeth i Gyflenwi

1.18 Rydym wedi sefydlu Cronfa Gymorth y Cyfnod Pontio er mwyn galluogi'r Adrannau i fynd i'r afael â heriau'r setliad anodd, ac i newid i ffyrdd mwy effeithlon ac arloesol o gyflenwi gwasanaethau. Mae £14 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2011-12, a fydd yn cynyddu i £40 miliwn yn 2012-13 ac yn 2013-14. Y fenter gyntaf y bydd y gronfa yn ei chefnogi yw gwell gwasanaeth newid gyrfa ar gyfer y rheini sy'n gadael y sector cyhoeddus. Mae'r fenter hon wedi'i datblygu drwy'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi. Mae'r gwasanaeth yn adeiladu ar lwyddiant y cynllun ReAct sydd, ers ei gyflwyno yn 2008, wedi helpu miloedd o bobl y mae'r dirwasgiad wedi effeithio arnynt i ennill cymwysterau a gwella eu cyfleoedd yn y farchnad lafur.

1.19 Rydym yn ffyddiog bod cynigion y gyllideb yn ymateb cyfrifol i setliad anodd, a'u bod yn adlewyrchu'r rôl bwysig sydd gan y gwasanaethau cyhoeddus ym mywyd beunyddiol Cymru. Rydym yn gwybod nad dyma ben draw'r gwaith, ac mai'r her go iawn yw defnyddio'r cyllidebau llai hyn i barhau i gyrraedd y safonau uchel y mae hawl gan bobl Cymru eu disgwyl. Ni allwn wneud hynny drwy ddilyn yr un hen rigol. Mae gan bob un ohonom ei ran yn cydweithio er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r her sydd o'n blaenau.

1.20 Ceir crynodeb o'r newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn y tablau canlynol. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Naratif y Gyllideb Ddrafft, a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd.

Tabl 1.1 - Dyraniadau DEL Llywodraeth y Cynulliad – Y Gyllideb Derfynol

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	£000oedd									
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tach 2010	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,132,587	18,023	6,150,610	6,114,090	17,520	6,131,610	6,101,115	17,052	6,118,167	
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,373,218	1,537	4,374,755	4,372,629	1,537	4,374,166	4,417,549	1,537	4,419,086	
Yr Economi a Thrafnidiaeth	903,042	-61,549	841,493	875,843	0	875,843	846,920	0	846,920	
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,846,817	37,868	1,884,685	1,843,278	32,868	1,876,146	1,849,020	32,868	1,881,888	
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	740,953	-	740,953	714,729	-	714,729	678,125	-	678,125	
Materion Gwledig	136,556	242	136,798	134,220	242	134,462	133,894	242	134,136	
Treftadaeth	150,850	5,386	156,236	147,920	5,033	152,953	147,033	4,765	151,798	
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	63,782	-	63,782	60,913	-	60,913	57,049	-	57,049	
Gweinyddiaeth Ganolog	346,499	-15,913	330,586	334,596	-15,057	319,539	318,653	-14,321	304,332	
Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad	14,694,304		14,679,898	14,598,218		14,578,812	14,549,358		14,529,952	
Comisiwn y Cynulliad	48,822	-	48,822	44,729	-	44,729	45,021	-	45,021	
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,853	-	4,853	4,853	-	4,853	4,853	-	4,853	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,962	-108	3,854	3,961	-	3,961	3,960	-	3,960	
Costau Uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru	675	-	675	675	-	675	675	-	675	
Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn:	bron yn arian parod	146,012	6,708	152,720	238,060	6,600	244,660	305,726	6,600	312,326
	nad ydynt yn arian parod	18,136	7,806	25,942	59,935	-48,743	11,192	69,302	-48,743	20,559
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn	50,448	-	50,448	50,449	-	50,449	50,449	-	50,449	
Addasiad DEL yn Sgil Arbedion yn Ystod y Flwyddyn		56,770	56,770							
Cyfanswm Gwariant yng nghyllideb DEL Cymru	14,967,212	56,770	15,023,982	15,000,880	0	15,000,880	15,029,344	0	15,029,344	

Tabl 1.2 – Newidiadau i Gyllidebau DEL Sydd Bron yn Arian Parod Llywodraeth y Cynulliad rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG): Cyllidebau DEL Sydd Bron yn Arian Parod	£000oedd								
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tach 2010	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,714,241	1,579	5,715,820	5,714,241	1,076	5,715,317	5,728,009	608	5,728,617
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,330,892	1,537	4,332,429	4,333,259	1,537	4,334,796	4,382,453	1,537	4,383,990
Yr Economi a Thrafnidiaeth	418,299	0	418,299	412,979	0	412,979	415,688	0	415,688
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,613,332	0	1,613,332	1,621,903	0	1,621,903	1,645,154	0	1,645,154
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	372,319	0	372,319	366,396	0	366,396	367,960	0	367,960
Materion Gwledig	123,714	0	123,714	121,810	0	121,810	122,330	0	122,330
Treftadaeth	131,388	6,197	137,585	129,495	5,844	135,339	130,107	5,576	135,683
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	46,305	0	46,305	44,629	0	44,629	42,490	0	42,490
Gweinyddiaeth Ganolog	318,517	-15,913	302,604	307,451	-15,057	292,394	292,718	-14,321	278,397
Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad	13,069,007	-6,600	13,062,407	13,052,163	-6,600	13,045,563	13,126,909	-6,600	13,120,309

Tabl 1.3 – Newidiadau i Gyllidebau DEL Nad Ydynt yn Arian Parod Llywodraeth y Cynulliad rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol³

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG): Cyllidebau DEL Nad Ydynt yn Arian Parod	£000oedd								
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tach 2010	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	153,556	16,444	170,000	153,556	16,444	170,000	153,556	16,444	170,000
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	7	0	7	7	0	7	7	0	7
Yr Economi a Thrafnidiaeth	171,549	-61,549	110,000	171,549	0	171,549	171,549	0	171,549
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	60,132	37,868	98,000	60,132	32,868	93,000	60,132	32,868	93,000
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	3,090	0	3,090	3,090	0	3,090	3,090	0	3,090
Materion Gwledig	8	242	250	8	242	250	8	242	250
Treftadaeth	4,619	-811	3,808	4,619	-811	3,808	4,619	-811	3,808
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	400	0	400	400	0	400	400	0	400
Gweinyddiaeth Ganolog	16,000	0	16,000	16,000	0	16,000	16,000	0	16,000
Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad	409,361	-7,806	401,555	409,361	48,743	458,104	409,361	48,743	458,104

³ Mae'r newidiadau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu addasiadau a wnaed i ddyraniadau nad ydynt yn arian parod. Mae'r gostyngiad net o £7,806k yn 2011-12 wedi ei ddyrannu i Gronfeydd Wrth Gefn nad ydynt yn arian parod

Tabl 1.4 – Newidiadau i Gyllidebau DEL Refeniw Llywodraeth y Cynulliad rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol ⁴

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG): Cyllidebau DEL Refeniw	£000oedd								
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tach 2010	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5,867,797	18,023	5,885,820	5,867,797	17,520	5,885,317	5,881,565	17,052	5,898,617
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,330,899	1,537	4,332,436	4,333,266	1,537	4,334,803	4,382,460	1,537	4,383,997
Yr Economi a Thrafnidiaeth	589,848	-61,549	528,299	584,528	0	584,528	587,237	0	587,237
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	1,673,464	37,868	1,711,332	1,682,035	32,868	1,714,903	1,705,286	32,868	1,738,154
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	375,409	0	375,409	369,486	0	369,486	371,050	0	371,050
Materion Gwledig	123,722	242	123,964	121,818	242	122,060	122,338	242	122,580
Treftadaeth	136,007	5,386	141,393	134,114	5,033	139,147	134,726	4,765	139,491
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	46,705	0	46,705	45,029	0	45,029	42,890	0	42,890
Gweinyddiaeth Ganolog	334,517	-15,913	318,604	323,451	-15,057	308,394	308,718	-14,321	294,397
Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad	13,478,368	-14,406	13,463,962	13,461,524	42,143	13,503,667	13,536,270	42,143	13,578,413

⁴ Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm y dyraniadau sydd bron yn arian parod a'r dyraniadau nad ydynt yn arian parod, sydd wedi'u dangos ar wahân yn nhablau 1.2 a 1.3

Tabl 1.5 – Newidiadau i Gyllidebau DEL Cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG): Cyllidebau DEL Cyfalaf	£000oedd								
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tach 2010	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft	Newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol	Cynlluniau Dangosol 2013-14 Y Gyllideb Ddrafft
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	264,790	0	264,790	246,293	0	246,293	219,550	0	219,550
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	42,319	0	42,319	39,363	0	39,363	35,089	0	35,089
Yr Economi a Thrafnidiaeth	313,194	0	313,194	291,315	0	291,315	259,683	0	259,683
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	173,353	0	173,353	161,243	0	161,243	143,734	0	143,734
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	365,544	0	365,544	345,243	0	345,243	307,075	0	307,075
Materion Gwledig	12,834	0	12,834	12,402	0	12,402	11,556	0	11,556
Treftadaeth	14,843	0	14,843	13,806	0	13,806	12,307	0	12,307
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	17,077	0	17,077	15,884	0	15,884	14,159	0	14,159
Gweinyddiaeth Ganolog	11,982	0	11,982	11,145	0	11,145	9,935	0	9,935
Cyfanswm a Ddyrennir i Adrannau Llywodraeth y Cynulliad	1,215,936	0	1,215,936	1,136,694	0	1,136,694	1,013,088	0	1,013,088

Tabl 1.6 – Cyllideb AME Llywodraeth y Cynulliad⁵

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG):	£000oedd					
	2011-12		2012-13		2013-14	
	Refeniw	Cyfalaf	Refeniw	Cyfalaf	Refeniw	Cyfalaf
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	118,948	0	118,948	0	118,948	0
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	13,583	0	13,583	0	13,583	0
Yr Economi a Thrafnidiaeth	41,402	0	41,402	0	41,402	0
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	0	217,656	0	225,781	0	226,516
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	-72,000	0	-61,000	0	-55,000	0
Treftadaeth	2,265	0	2,490	0	2,740	0
Gweinyddiaeth Ganolog	924	0	933	0	-668	0
Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth y Cynulliad	105,122	217,656	116,356	225,781	121,005	226,516

⁵ Ni fu unrhyw newidiadau i ffigurau AME Llywodraeth y Cynulliad rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.

2. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Newidiadau Cyffredinol i Gyllideb y MEG

2.1 Ceir cynnydd net yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £18,023k yn 2011-12, £17,520k yn 2012-13 ac £17,052k yn 2013-14.

2.2 Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo refeniw gwerth £9,716k yn 2011-12, £9,213k yn 2012-13 a £8,745k yn 2013-14 i mewn i'r Cam Gweithredu 'Rhaglenni CAFCASS Cymru' o'r Cam Gweithredu 'Costau Staff' yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â chostau rhedeg y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS);
- Trosglwyddo cyfanswm o £8,137k o refeniw ar gyfer blynyddoedd 2011-12, 2012-13 a 2013-14 allan i'r Cam Gweithredu 'Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol' yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Mae hwn yn cynnwys:
 - £2,637k o'r Cam Gweithredu 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant' mewn perthynas â Ffioedd Llys i Blant;
 - £2,500k o'r Cam Gweithredu 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant' mewn perthynas â Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008;
 - £3,000k o'r Cam Gweithredu 'Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol' ar gyfer y Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad.
- Cynnydd rheolaidd nad yw'n arian parod o'r Cronfeydd Wrth Gefn o £16,444k ar gyfer y blynyddoedd 2011-12, 2012-13 a 2013-14 i'r Cam Gweithredu 'Cyflenwi'r GIG' ar gyfer dibrisiant yn y GIG.

Newid y Disgrifiadau o'r Meysydd Rhaglenni Gwariant / Camau Gweithredu

- 2.3** Rhoddwyd enw newydd i gyllideb gyfalaf y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol o fewn Cam Gweithredu Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyllid yma ar gyfer benthyca â chymorth a'r grant cyfalaf cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae pennawd y gyllideb wedi'i newid felly i Cyllid Cyfalaf Cyffredinol. Mae hyn yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir yn y MEGiau eraill.

Tabl 2.1 – Dyroniadau Maes Rhaglenni Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

	£000oedd											
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tachwedd 2010			Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol			Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol			Cynlluniau Newydd 2013-14 Y Gyllideb Derfynol		
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm
Cyflenwi'r GIG	5,351,604	247,573	5,599,177	5,368,048	247,573	5,615,621	5,368,049	230,279	5,598,328	5,381,817	205,275	5,587,092
Cyllidebau Canolog Iechyd	257,615	6,117	263,732	257,615	6,117	263,732	257,615	5,690	263,305	257,615	5,072	262,687
Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau	155,592	5,418	161,010	155,592	5,418	161,010	155,591	5,039	160,630	155,591	4,492	160,083
Gwasanaethau Cymdeithasol	102,564	5,682	108,246	94,427	5,682	100,109	94,427	5,285	99,712	94,427	4,711	99,138
CAFCASS Cymru	422	0	422	10,138	0	10,138	9,635	0	9,635	9,167	0	9,167
Cyfanswm DEL	5,867,797	264,790	6,132,587	5,885,820	264,790	6,150,610	5,885,317	246,293	6,131,610	5,898,617	219,550	6,118,167
Gwariant a Reolir yn Flynyddol												
Amhariadau'r GIG	118,948	0	118,948	118,948	0	118,948	118,948	0	118,948	118,948	0	118,948
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	5,986,745	264,790	6,251,535	6,004,768	264,790	6,269,558	6,004,265	246,293	6,250,558	6,017,565	219,550	6,237,115

3. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Newidiadau Cyffredinol i Gyllideb y MEG

3.1 Ceir cynnydd net yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol o £1,537k ym mhob un o'r tair blynedd.

3.2 Mae hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo cyfanswm o £8,137k o refeniw ar gyfer blynyddoedd 2011-12, 2012-13 a 2013-14 i mewn i'r Cam Gweithredu 'Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol', o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn cynnwys:
 - £2,637k o'r Cam Gweithredu 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant' mewn perthynas â Ffioedd Llys i Blant;
 - £2,500k o'r Cam Gweithredu 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant' mewn perthynas â Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008;
 - £3,000k o'r Cam Gweithredu 'Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol' ar gyfer y Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad.
- Trosglwyddo £6,600k allan o'r Cam Gweithredu 'Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol' yn 2011-12 a'r blynyddoedd dilynol i'r Cronfeydd Wrth Gefn mewn perthynas â'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes. Addasiad technegol yw hwn i adlewyrchu'r modd y mae'r cynllun yn cael ei ariannu erbyn hyn, yn hytrach na newid i'r polisi ei hun.

Tabl 3.1 – Dyranïadau Maes Rhaglenni Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

	£000oedd											
	Cynlluniau Newydd 2011-12 Cyllideb Ddrafft Tachwedd 2010			Cynlluniau Newydd 2011-12 Y Gyllideb Derfynol			Cynlluniau Dangosol 2012-13 Y Gyllideb Derfynol			Cynlluniau Newydd 2013-14 Y Gyllideb Derfynol		
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm	Refeniw	Cyfalaf	Cyfanswm
Cyllid Llywodraeth Leol	4,208,381	20,000	4,228,381	4,209,918	20,000	4,229,918	4,218,640	20,000	4,238,640	4,270,261	20,000	4,290,261
Cefnogi Cymunedau a Phobl	60,543	17,280	77,823	60,543	17,280	77,823	55,108	14,774	69,882	53,945	10,950	64,895
Cymunedau Diogelach	11,851	3,039	14,890	11,851	3,039	14,890	11,801	2,839	14,640	11,701	2,639	14,340
Polisi Llywodraeth Leol	37,552	0	37,552	37,552	0	37,552	37,134	0	37,134	36,451	0	36,451
Trethiant Llywodraeth Leol	10,744	0	10,744	10,744	0	10,744	10,357	0	10,357	9,994	0	9,994
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	1,828	2,000	3,828	1,828	2,000	3,828	1,763	1,750	3,513	1,645	1,500	3,145
Cyfanswm DEL	4,330,899	42,319	4,373,218	4,332,436	42,319	4,374,755	4,334,803	39,363	4,374,166	4,383,997	35,089	4,419,086
Gwariant a Reolir yn Flynyddol												
Cyllid Llywodraeth Leol	13,583	0	13,583	13,583	0	13,583	13,583	0	13,583	13,583	0	13,583
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	4,344,482	42,319	4,386,801	4,346,019	42,319	4,388,338	4,348,386	39,363	4,387,749	4,397,580	35,089	4,432,669

4. Yr Economi a Thrafnidiaeth

Newidiadau Cyffredinol i Gyllideb y MEG

- 4.1** Ceir gostyngiad o £61,549k yn y gyllideb nad ydyw'n arian parod, yn 2011-12 yn unig
- 4.2** Mae hyn yn cynnwys:
- Trosglwyddo £30,355k allan o'r Cam Gweithredu Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) - Nad Yw'n Arian Parod' i'r Cronfeydd wrth Gefn yn 2011-12 yn unig.
 - Trosglwyddo £31,194k allan o'r Cam Gweithredu 'Gwella Cysylltedd Rhyngwladol – Nad Yw'n Arian Parod' i'r Cronfeydd wrth Gefn yn 2011-12 yn unig.

Newid y Disgrifiadau o'r Meysydd Rhaglenni Gwariant / Camau Gweithredu

- 4.3** Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol) – newid enw'r Cam Gweithredu o "Benthyca â Chymorth" i "Cyllid Cyfalaf Cyffredinol – Ffyrdd" i adlewyrchu'r ffaith bod natur y llinell hon yn y gyllideb yn cynnwys elfen o fenthyca â chymorth ac elfen o grant cyfalaf cyffredinol.
